

POLISI A GWEITHDREFNAU DIOGELU

Oedolion mewn Perygl

Mae diogelu yn gyfystyr ag amddiffyn iechyd, lles a hawliau dynol pobl, a'u galluogi i fyw yn rhydd o niwed, cam-drin ac esgeulustod (Comisiwn Ansawdd Gofal, 2014).

Mae Casnewydd Fyw yn cydnabod bod diogelu'n fater i bawb ac yn gyfrifoldeb ar bawb, felly, waeth beth fo swydd gweithiwr, dylai fod yn gwbl ymwybodol o ba gamau y mae angen iddo eu cymryd os yw'n nodi pryder am oedolyn mewn perygl neu deulu y gall ddod i gysylltiad ag ef yn ystod ei ddiwrnod gwaith.

Deddfwriaeth Berthnasol

Mae'r polisi hwn yn unol â'r canlynol:

- Deddf Troseddau Rhywiol 2003 +(a22A – Swyddi Ymddiriedolaeth)
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Gofal 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Canllaw "Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl" Llywodraeth Cymru
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 – Ar gael drwy'r wefan (www.diogelu.cymru) ac ar app y gellir ei lawrlwytho.
- Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn
- Deddf Troseddau Difrifol 2015 (Cam-drin neu esgeulustod bwriadol gan aelod o'r cartref)
- Deddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd (Cam-drin neu esgeulustod bwriadol gan weithiwr gofal)
- Deddf Priodas dan Orfod 2017
- Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015
- Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003
- Deddf Terfysgaeth 2000
- Deddf Diogelu Data 1998
- Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018
- Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (Erthyglau 2, 3, 5, 6 ac 8)
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Ddeddf Datgelu Budd Cyhoeddus 1998
- Deddf Iechyd a Gofal 2022

Ers 6 Ebrill 2016, mae Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan (BDOGG) yn Fwrdd Statudol fel y nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Crëwyd Bwrdd Partneriaeth De-ddwyrain Cymru Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedyn.

Er bod dau Fwrdd Diogelu ar wahân ar hyn o bryd, Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent gyfan (BDOGG) a Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru (BDPDDdC), cynhyrchir y deunyddiau hyrwyddo a chynhelir y gweithgareddau codi ymwybyddiaeth dan frand Diogelu Gwent.

Egwyddorion Allweddol

Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu sy'n parhau'n bennaf gyfrifol am ymchwilio i achosion posibl neu wirioneddol o gam-drin oedolyn mewn perygl, ond mae nodi cam-drin a rhoi gwybod amdano'n fater ac yn gyfrifoldeb i bawb.

Ni ddisgwylir i staff fod yn arbenigwyr yn y maes hwn ac ni ddisgwylir iddynt gael eu hyfforddi i ddelio ag amddiffyn, nac i ymchwilio i bryderon eu hunain, ond mae angen i staff fod yn ymwybodol o'r agweddau allweddol canlynol:

- Mae'n ffaith bywyd bod cam-drin yn digwydd.
- Mae gan staff gyfrifoldeb i fod yn wylidwrs ac yn ymwybodol o bryderon posibl.
- Dylai staff siarad â'u Rheolwr Llinell os oes ganddynt bryderon am oedolyn mewn perygl a rhoi gwybod am y rhain fel y gellir cymryd camau priodol.
- Mae gan Casnewydd Fyw Swyddog Diogelu Arweiniol, sy'n gallu rhoi cyngor a chymorth yn ôl yr angen. Gellir cysylltu â'r swyddog trwy ffonio 01633 233685.
- I roi gwybod am bryder, dylai staff gysylltu â Thîm Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Dinas Casnewydd ar 01633 656656 i gael cyngor neu i wneud atgyfeiriad. Os yw'r tu allan i oriau swyddfa arferol (8.30am-5pm) cysylltwch â'r Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau Brys ar 0800 328 4432.
- Mewn **argyfwng**, cysylltwch â'r Heddlu'n uniongyrchol ar 101 / 999.
- Nid oes angen caniatâd teulu arnoch i wneud atgyfeiriad i'r Tîm Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed. Ond yr arfer gorau yw cael caniatâd yr oedolyn rydych chi'n pryderu amdano cyn gwneud atgyfeiriad.

Gall fod yn demtasiwn osgoi ymwneud â'r achos neu ofni'r canlyniadau ond cofiwch y gallai peidio â gwneud dim olygu y gallai oedolyn mewn perygl barhau i gael ei gam-drin. Os oes gennych bryderon, eich cyfrifoldeb chi yw rhannu'r pryderon hynny ond nid eich cyfrifoldeb chi yw ymchwilio i'r pryderon hynny drosoch eich hun.

Mae Casnewydd Fyw wedi mabwysiadu Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019). Mae'r gweithdrefnau hyn yn manylu ar y prosesau y cytunwyd arnynt y dylid eu dilyn er mwyn diogelu ac amddiffyn oedolion mewn perygl.

Gellir gweld gweithdrefnau a chanllawiau Diogelu Cymru ar-lein erbyn hyn [Gofal Cymdeithasol Cymru \(diogelu.cymru\)](https://www.diogelu.cymru) ac ar ap. Anogir pob aelod o staff i lawrlwytho'r ap, fel bod ganddo arweiniad a gwybodaeth wrth law.

Nid oes angen i staff wybod popeth mewn manylder sydd yn y gweithdrefnau, ond rhaid i chi fod yn ymwybodol o'ch dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau i ymateb i bryderon a nodwyd ar gyfer oedolyn mewn perygl a bod proses glir y dylid ei dilyn i roi gwybod am eich pryderon.

Beth yw diffiniad "Oedolyn mewn Perygl"?

Oedolyn mewn Perygl yw 'person dros 18 oed sydd, neu a allai fod, ag angen gwasanaethau gofal cymunedol oherwydd anabledd meddyliol neu anabledd arall, oedran, neu salwch ac sydd neu a allai fod yn methu â gofalu amdano'i hun, neu sy'n methu ag amddiffyn ei hun rhag niwed sylweddol neu gamfanteisio difrifol'.

Gall y diffiniad hwn gynnwys person sydd ag anableddau dysgu; â phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys dementia; yn berson hŷn ag anghenion cymorth/gofal; yn fregus yn gorfforol neu

sydd â salwch cronig; ag anabledd corfforol neu synhwyraidd; yn camddefnyddio cyffuriau neu alcohol; ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig

Mae niwed sylweddol yn cyfeirio at gamdriniaeth (gan gynnwys cam-drin rhywiol a mathau o gamdriniaeth nad ydynt yn gorfforol); amhariad ar iechyd corfforol neu feddyliol, neu ddirywiad yn y rhain y gellir ei osgoi; amhariad ar ddatblygiad corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol.

Galluedd Meddyliol

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (y Ddeddf) yn rhoi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithredu a gwneud penderfyniadau ar ran unigolion nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau penodol drostynt eu hunain.

Man cychwyn y Ddeddf yw cadarnhau mewn deddfwriaeth y dylid tybio bod gan oedolyn (16 oed neu hŷn) y galluedd cyfreithiol llawn i wneud penderfyniadau drosto'i hun (yr hawl i ymreolaeth) oni ellir dangos nad oes ganddo'r galluedd i wneud penderfyniad drosto'i hun ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad. Rhagdybiaeth galluedd yw hyn.

Cydsyniad

Ystyrir bod y rhan fwyaf o oedolion, yn ôl y gyfraith, yn gallu rhoi neu atal caniatâd. Ym maes amddiffyn oedolion, mae'n hanfodol ystyried a yw oedolyn mewn perygl yn gallu rhoi caniatâd ac, os felly, rhaid gofyn am ei ganiatâd. Fodd bynnag, hyd yn oed pan fydd oedolyn yn gwrthod camau gweithredu dan y Polisi a'r Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion, mae gan staff **ddyletswydd hollbwysig** i roi gwybod am gam-drin os yw'r oedolyn hwnnw, neu bobl eraill, mewn perygl.

Os yw'n ymddangos bod yr oedolyn mewn perygl yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ac nad yw eisiau camau gweithredu neu ymyrraeth, dylid parchu ei ddymuniadau, oni bai:

- bod dyletswydd statudol i ymyrryd (mae'n bosibl bod trosedd wedi'i chyflawni/y caiff trosedd ei chyflawni);
- bod angen cymryd camau neu ymyrryd er budd y cyhoedd e.e. person arall neu bobl eraill mewn perygl;
- yr amheuir y gallai'r oedolyn fod dan ddylanwad gormodol rhywun arall.

Beth yw cam-drin?

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cydnabod y categorïau canlynol o gam-drin:

- **Cam-drin corfforol**
- **Cam-drin emosiynol/seicolegol**
- **Cam-drin rhywiol**
- **Esgeulustod**
- **Cam-drin ariannol**

Mae cam-drin bob amser yn perthyn i un o'r pum categori a nodwyd, ond mae gwaith pwysig wedi'i wneud ar ffurfiau a chyd-destunau penodol o gam-drin y dylech hefyd fod yn ymwybodol ohonynt, sef Hunanesgeulustod, Cam-drin Sefydliadol, Gofal Gwael, Esgeulustod Sefydliadol, Cam-drin neu Esgeulustod Bwriadol, Gwahaniaethu a Throsedd Casineb, Trosedd Casineb

Anabledd, Cam-drin gan Ddieithryn, Cam-drin Domestig, Priodas dan Orfod, Caethwasiaeth Fodern, Camfanteisio'n Rhywiol, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, Cogio, Radicaleiddio, Stelcio.

Diogelu Pob Cwsmer

Mae Casnewydd Fyw yn gweithio gyda sefydliadau i ddiogelu eu cwsmeriaid. Mae sefydliadau fel yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai'n cydweithio ag asiantaethau eraill i reoli'r risg a achosir gan droseddwyd treisgar a rhywiol sy'n byw yn y gymuned er mwyn amddiffyn y cyhoedd.

Rolau a Chyfrifoldebau Staff

Os yw gweithiwr yn gwybod, yn pryderu neu'n amau bod oedolyn yn dioddef niwed, wedi dioddef niwed neu'n debygol o fod mewn perygl o niwed, ei gyfrifoldeb ef yw sicrhau ei fod yn rhannu ei bryderon â'i reolwr llinell/swyddog diogelu yn brydlon.

Ceir y camau gweithredu i'w cymryd, gan gynnwys yr hyn y mae angen i weithwyr ei wybod, ffynonellau cyngor ac arbenigedd, a'r person y dylid cysylltu ag ef/hi i gael y fath gyngor, ar y gweithdrefnau Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl – Eich Cyfrifoldebau. Mae'r rhain ar gael mewn ardaloedd staff ym mhob un o leoliadau Casnewydd Fyw.

Os bydd unigolyn, rhiant, gofalwr, perthynas neu aelod o'r cyhoedd yn mynegi pryderon am les unigolyn i weithiwr, rhaid i'r gweithiwr hwnnw sicrhau ei fod yn derbyn yr wybodaeth gan y person ac yn ei rhoi i'w Reolwr Llinell. Os rhoddir gwybod am ddigwyddiad neu bryder ar safle Casnewydd Fyw, dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Gweithrediadau Hamdden/y Rheolwr Ar Ddyletswydd/y Rheolwr Arweiniol ac, os yw'n briodol, bydd yn ymchwilio i'r pryder. Bydd y Swyddog Arweiniol yn trafod hyn â'r Swyddog Diogelu Arweiniol ac, os yw'n briodol, bydd yn atgyfeirio at y Tîm Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed.

Nodir yr ymddygiad a ddisgwylir gan bob gweithiwr yn y **Cod Ymddygiad Gweithwyr**.

Person â Chyfrifoldeb dros Ddiogelu

O fewn Casnewydd Fyw mae Swyddog Diogelu Arweiniol dynodedig. Mae'r person hwn yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi a'r gweithdrefnau diogelu ar waith ac yn cael eu cyfleu i'r staff. Gellir cysylltu â'r Swyddog Diogelu Arweiniol ar 01633 233685 i gael cyngor a chymorth yn ôl yr angen.

Cydnabod achosion posibl o gam-drin ac esgeulustod ac ymateb iddynt

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y pryderon mewn perthynas â'r cam-drin honedig/y rhoddwyr gwybod amdano/posibl yn cael eu rhannu â'r asiantaethau statudol priodol mewn da bryd ac mewn modd priodol a'ch bod yn cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a/neu'r Heddlu ar unwaith mewn argyfwng.

Yn ogystal â'r Gwasanaethau Statudol, efallai y bydd angen rhoi gwybod i asiantaethau eraill am ymchwiliadau. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos digwyddiadau mewn clybiau chwaraeon, lle byddai angen rhoi gwybod i'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol. Efallai y bydd angen hefyd rhoi gwybod i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd am ymddygiad hyfforddwyr.

Mae ymchwil yn awgrymu bod oedolion ag anabledau yn fwy agored i niwed a'u bod felly mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso am nifer o resymau (e.e. diffyg sgiliau cyfathrebu gan ei gwneud yn anos i'r oedolyn ddatgelu bod cam-drin yn digwydd).

Gall amheuron neu bryderon ynghylch achos posibl o gam-drin oedolyn mewn perygl godi o nifer o amgylchiadau gan gynnwys:

- Anafiadau i oedolyn
- Datgeliadau uniongyrchol i chi gan yr oedolyn, neu unigolyn arall
- Newid yng ngolwg corfforol neu ymddygiad yr oedolyn
- Ymddygiad unigolyn tuag at yr oedolyn y sylwyd arno (e.e. diffyg cyfeillgarwch a llawer o feirniadaeth tuag at yr oedolyn; disgwyl pethau afrealistig gan yr oedolyn; ymddygiad ymosodol corfforol/geiriol tuag at yr oedolyn)
- Arddangos ymddygiad rhywiol mewn amgylchiadau amhriodol
- Sylwadau i chi gan yr oedolyn neu gan ffrindiau neu berson arall
-

Ymateb i ddatgeliad bod plentyn neu berson ifanc yn cael ei gam-drin

Os bydd rhywun yn dweud wrth aelod o staff ei fod ef neu oedolyn arall yn cael ei gam-drin:

- Arhoswch yn ddigyffro - dangoswch eich bod wedi clywed yr hyn y mae wedi'i ddweud a'ch bod yn cymryd ei honiad o ddifrif.
- Cefnogwch yr oedolyn i siarad ond peidiwch â sbarduno neu ofyn cwestiynau arweiniol, peidiwch â thorri ar draws y plentyn a pheidiwch â gofyn iddo ailadrodd ei stori i bobl eraill.
- Peidiwch ag addo cadw cyfrinach - mae gennych gyfrifoldeb i roi gwybod am unrhyw bryderon ond eglurwch mai dim ond y bobl y mae angen iddynt wybod fydd yn cael gwybod.
- Eglurwch pa gamau y mae'n rhaid i chi eu cymryd mewn modd priodol ac mewn ffordd y bydd yr oedolyn yn ei deall.
- Ysgrifennwch yr hyn a ddywedwyd wrthyfych gan geisio defnyddio'r union eiriau a ddefnyddiwyd lle bynnag y bo modd. Nodwch hefyd yr amser a'r dyddiad ac a oedd unrhyw bobl eraill yn bresennol.
- PEIDIWCH â herio'r camdriniwr honedig.
- Rhowch wybod i'ch rheolwr llinell am eich pryderon cyn gynted â phosibl (yn sicr o fewn 24 awr) ac os ar y safle, i'r Swyddog Gweithrediadau Hamdden, y Rheolwr Ar Ddyletswydd neu'r person diogelu dynodedig – bydd y person hwn yn gyfrifol am gwblhau atgyfeiriad i'r Tîm Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed.

Pan roddwyd gwybod am y pryder, rôl y person diogelu dynodedig yw derbyn a chofnodi gwybodaeth, asesu'r wybodaeth yn briodol ac yn ofalus, ymgynghori â'r Swyddog Diogelu Arweiniol/y Tîm Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed i drafod pryderon, a bod yn gyfrifol am gyflwyno atgyfeiriad i'r Tîm Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed a, lle bo angen, yr Heddlu.

Ymateb i honiadau o gam-drin yn erbyn aelod o staff neu weithiwr proffesiynol arall

Lle nodir pryderon mewn perthynas ag unrhyw aelod o staff, rhaid i'r pryderon hynny gael eu cydnabod a rhaid ymateb iddynt yn briodol, gan gynnwys rhoi gwybod i asiantaethau partner fel cyrff llywodraethu cenedlaethol. Mae'n hanfodol yr ymchwiler yn gwbl gyfrinachol i amheuron/honiadau ynglŷn â'r aelod o staff gan alluogi gwybodaeth i gael ei rhannu'n rhydd ac yn llawn. Mae hefyd angen ystyried pa gamau y dylid eu cymryd mewn perthynas ag unrhyw

gyswllt sydd gan y person dan amheuaeth ag unrhyw oedolyn arall sydd mewn perygl neu blentyn, gan gynnwys ei blant a'i deulu ei hun. Dylid rhoi gwybod i'ch rheolwr llinell am bryderon.

Os oes gennych bryderon neu os ydych yn teimlo nad yw'r pryderon ynglŷn â'r person dan amheuaeth honedig wedi'u rheoli neu nad ymchwiliwyd iddo'n briodol, gallwch hefyd gyfeirio eich pryderon at y sefydliadau canlynol:

Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent Gyfan